# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-11-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Hefyd yn bresennol

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| David Lambert | Cymrawd Ymchwil Nodedig, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd |
| Marie Navarro | Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd |

## Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Eleanor Burnham, Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-10-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnyn nhw, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ar unwaith i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1259 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**LC1260 – Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006**

**LC1261 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2006**

**LC1263 – Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**LC1264 – Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006**

**LC1265 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006**

**LC1266 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006**

**LC1267 – Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006**

## Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor

5.1 Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dr Brian Gibbons AC, i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â’r canlynol:

The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional Provisions (Wales) Order 2006 (LC1218)

Functions of Local Health Boards (Dental Public Health) (Wales) Regulations 2006 (LC1219)

The National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006 (LC1224)

The National Health Services (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006 (LC1225)

The National Health Services (Dental Charges) (Wales) Regulations (LC1226)

## Eitem 6: Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau’r Cynulliad yn 2007, Trafodaeth gyda Mr David Lambert, Cymrawd Ymchwil Nodedig, a Ms Marie Navarro o Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd

6.1 Er bod Deddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn darparu yn unswydd ar gyfer Pwyllgor Deddfau, nododd Mr Lambert nad yw’r Mesur Llywodraeth Cymru newydd yn pennu a ddylai pwyllgor o’r fath fodoli ar ôl yr etholiadau i’r Cynulliad yn 2007, na beth fyddai rôl y pwyllgor hwnnw.

6.2 Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y Pwyllgor Deddfau wedi'i gyfyngu yn bennaf i ystyried pa mor gyfreithlon yw is-ddeddfwriaeth. O dan y ddeddfwriaeth newydd, pe bai Pwyllgor Deddfau'n cael ei sefydlu, fe allai gael cylch gwaith eang iawn a allai gynnwys craffu ar unrhyw gyfraith a fyddai'n effeithio ar Gymru, a hynny yn nhermau pa mor gyfreithlon fyddai'r offerynnau, a'u rhagoriaethau hefyd.

6.3 Tanlinellodd Mr Lambert y ffaith mai dim ond rhyw hanner y gyfraith sy'n cael ei gwneud gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n cael ei weld gan y Pwyllgor Deddfau ar hyn o bryd, yn rhannol am nad yw llawer ohoni'n cael ei wneud drwy offeryn statudol cyffredinol, fel sy'n digwydd mewn nifer o feysydd pwysig, er enghraifft penderfyniadau tai.

6.4 O ran craffu, dywedodd Mr Lambert y byddai'n ddelfrydol pe bai gan y Cynulliad neu ei bwyllgorau y peirianwaith i graffu ar yr holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Chymru, er ei fod yn sylweddoli y byddai hynny'n anodd iawn yn ymarferol. Mynegodd ei ofid y gallai cyfreithiau gael eu gwneud heb yn wybod i'r Cynulliad pe na bai'r gwaith yma'n cael ei wneud yn annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad. Dywedodd Mr Lambert y gallai'r un peth fod yn wir am y swm aruthrol o gyfraith sy'n deillio o Senedd y Deyrnas Unedig.

6.5 Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Deddfau yn edrych ar yr holl Offerynnau Statudol cyffredinol, sydd wedyn yn cael eu gweld gan y Cyfarfod Llawn ac (weithiau) gan Bwyllgorau Pwnc. Ond, o fis Mai 2007 ymlaen nid pob un o'r Offerynnau Statudol cyffredinol yma fydd yn cael eu gweld. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud yr holl Offerynnau Statudol, nid y Cynulliad. Dim ond os ydyn nhw'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU o dan y Ddeddf Seneddol berthnasol y bydd angen i'r offerynnau yma ddod gerbron y Cynulliad, sef cwta 10 y cant o'r offerynnau.

6.6 Gan hynny, bydd y Cynulliad yn gorfod edrych ar un rhan o ddeg yn unig o'r hyn y mae'n edrych arno ar hyn o bryd, oni bai bod Aelod yn gwrthwynebu Offeryn. Bydd y weithdrefn newydd sy'n cael ei chreu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys Gorchmynion newydd yn y Cyfrin Gyngor a Mesurau a wneir o dan y Gorchmynion hynny. Bydd y Cynulliad yn brysurach yn edrych ar Orchmynion drafft arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor ar ôl iddyn nhw gael eu cynnig gan Lywodraeth y Cynulliad ac ar ôl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru edrych arnyn nhw, sef gweithdrefn a allai fod yn faith a chymhleth iawn.

6.7 Awgrymodd Mr Lambert nifer o bosibiliadau ar gyfer rôl Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Y cyntaf yw y gallai'r Pwyllgor edrych ar bob Offeryn Statudol, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, p'un a fyddai'n rhaid iddyn nhw fynd i'r Cyfarfod Llawn neu beidio. Yn y sefyllfa honno, mae'n bosibl na fyddai 90 y cant o'r ddeddfwriaeth a gâi ei hystyried gan y Pwyllgor hyd yn oed yn mynd gerbron y Cyfarfod Llawn.

6.8 Dewis arall fyddai i'r Pwyllgor edrych ar y 10 y cant o'r ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cyfarfod Llawn, gan ganiatáu felly i'r Pwyllgor dreulio amser yn edrych ar faterion eraill nad ydyn nhw'n cael eu hystyried ar hyn o bryd oherwydd diffyg amser, neu am nad ydyn nhw wedi'u cyflwyno eto gan y Ddeddf Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill. Byddai'r materion yma yn cynnwys

edrych ar gyfreithlondeb a rhagoriaethau Gorchmynion arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor, a chyfreithlondeb y Mesurau a fyddai'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y Cynulliad. Nododd Mr Lambert y gallai rhagoriaethau deddfwriaeth gael eu hystyried gan Bwyllgorau Sefydlog, ond y dylai cyfreithlondeb gael ei ystyried gan bwyllgor deddfau.

6.9 Awgrymodd Mr Lambert y dylai'r Pwyllgor fynd ati, ar ôl iddo ystyried y materion uchod, a phe bai amser yn caniatáu, i ystyried mesurau ac offerynnau statudol a fyddai'n deillio o Senedd y DU ac a fyddai'n cael eu gwneud gan y Llywodraeth Ganolog ac yn effeithio ar Gymru.

6.10 Mynegodd Mr Lambert ei bryderon ynghylch y nifer aruthrol o offerynnau statudol sy'n cael eu gwneud ar gyfer Cymru gan Lywodraeth y DU, ac yn benodol y ffaith bod mwy o offerynnau'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU na chan y Cynulliad.

6.11 Nodwyd bod y prif feysydd lle mae hyn yn wir yn cynnwys Iechyd, Addysg a'r Amgylchedd a dywedodd Mr Lambert nad oedd yn gwybod am unrhyw beirianwaith i unrhyw ran o'r Cynulliad edrych ar y materion yma.

6.12 Daeth Mr Lambert i'r casgliad y bydd y ffordd y byddwn yn craffu ar ddeddfwriaeth ar ôl 2007 yn dibynnu ar nifer o faterion gan gynnwys cyfyngiadau amser, a fydd yna bwyllgor deddfau, strwythur y pwyllgorau newydd, ac a fydd pwyllgorau pwnc ar gael neu yn cael eu disodli gan bwyllgorau a fydd yn edrych ar fesurau.

6.13 Yn ei farn ef, y mae ac fe fydd llawer o waith i'w wneud, a'r ffordd orau iddo gael ei wneud yw drwy'r Pwyllgor Deddfau .

6.14 Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i drafod y materion yr oedd Mr Lambert wedi'u trafod.

6.15 Gofynnodd Aelodau sut y gallai'r sefyllfa lle mae mwy o ddeddfwriaeth iechyd yn cael ei phasio yn San Steffan nag yng Nghaerdydd gael ei chywiro o dan y trefniant ar ôl 2007.

6.16 Heblaw negodi gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, dywedodd Mr Lambert wrth y Pwyllgor y gallai'r mater gael ei drafod drwy Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n gallu ymgorffori unrhyw faes sydd wedi'i nodi ym Mesur Llywodraeth Cymru. Er hynny, fyddai'r Ysgrifennydd Gwladol ddim am awgrymu i'r Senedd y dylai'r Cynulliad gael rhai o'r un pwerau ag sydd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru. Nododd Mr Lambert hefyd nad yw'r math yma o ddeddfwriaeth yn cael ei ystyried gan y Cynulliad a bod angen peirianwaith i Lywodraeth y DU roi drafftiau i'r Cynulliad i ganiatáu iddo wneud rhywfaint o gyfraniad cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud.

6.17 Gofynnodd Aelodau pa feysydd y mae'r broses bresennol yn effeithio arnyn nhw yn bennaf. Rhoddodd Ms Navarro enghreifftiau i'r Pwyllgor, megis gwerthu a chyflenwi cyffuriau, materion ynglyn â phensiynau, a materion sy'n ymwneud ag amryw o broffesiynau, megis athrawon.

6.18 Tanlinellodd yr Aelodau bwysigrwydd cael telerau cenedlaethol i athrawon a gweithwyr y gwasanaeth iechyd.

6.19 Cododd Mr Griffiths fater y Mesur Diwygio Deddfwriaeth a Rheoleiddio gan ofyn beth fyddai effaith hwnnw, yn enwedig felly mewn perthynas â pha waith craffu y byddai angen ei wneud yn nhermau Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio a fyddai'n effeithio ar y Cynulliad.

6.20 Dywedodd Mr Lambert wrth y pwyllgor fod y Mesur wedi bod drwy Dy'r Cyffredin a'i fod gerbron Ty'r Arglwyddi erbyn hyn. Nododd ei fod yn darparu pwerau eang iawn, a'r rheiny heb gynsail bron, sy'n rhoi yr un pwerau i'r Llywodraeth Ganolog ag sydd gan y Senedd i wneud deddfau a'u diwygio. Pan ddaw'r Mesur yn Ddeddf, bydd dwy ffynhonnell i'r gyfraith, sef y Weithrediaeth a'r Senedd, a bydd pwerau cyfochrog gan y ddwy.

6.21 Dywedodd Mr Lambert ei bod yn anodd iawn herio Deddfau Seneddol yn gyfreithiol, ond er y gall gorchmynion sy'n cael eu gwneud gan y Weithrediaeth gael eu herio o ran theori, mewn gwirionedd fe fyddai'n anodd iawn gwneud hynny yn y llys a hynny am y byddai darpariaethau'r Ddeddf mor eang.

6.22 Mewn perthynas ag unrhyw Ddeddf ar y llyfr statudau, byddai'r Ddeddf yn golygu y gallai Llywodraeth y DU ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth a gosod darpariaethau cwbl wahanol yn ei lle.

6.23 Gan hynny, dywedodd Mr Lambert ei fod yn credu y gallai'r Ddeddf fod yr un mor bwysig â Deddf Llywodraeth Cymru yn yr ystyr y gallai'r Llywodraeth, gyda chydsyniad y Cynulliad, roi pwerau aruthrol i'r Cynulliad. Fyddai dim angen i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor gael eu gosod gerbron y Senedd o gwbl ac a dweud y gwir fe allai'r Senedd gael ei hosgoi yn gyfan gwbl. Gallai'r Weithrediaeth gynnig newid Deddf a phenderfynu hefyd a ddylai'r cynnig hwnnw fynd gerbron y Senedd. Dylai unrhyw orchmynion newydd o'r fath a gâi eu cynnig gael eu holrhain gan y Pwyllgor Deddfau ac yn arbennig felly pa mor gyfreithlon fyddai'r gorchmynion hynny.

6.24 Awgrymodd Mr Lambert y gallai'r Ddeddf fod yn fanteisiol yn yr ystyr y byddai'n gweld rhagor o bwerau yn cael eu rhoi i'r Cynulliad ond y byddai yn yr un modd yn rhoi pwer i'r Llywodraeth Ganolog i ddiwygio heb ymgynghori. Roedd yn hanfodol bod y Cynulliad yn sicrhau yr ymgynghorir â'r Cynulliad.

6.25 Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r weithdrefn negyddol yn dal yn gymwys.

6.26 Atebodd Mr Lambert ei fod yn credu y byddai ac y gallai'r Senedd alw deddfwriaeth i mewn ond y byddai gan y Weithrediaeth bwer i benderfynu a ddylai gorchymyn arfaethedig ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol ynteu'r weithdrefn negyddol. Gallai hynny olygu na fyddai fawr o debygrwydd y câi deddfwriaeth ei galw i mewn hyd yn oed pe bai Aelod Seneddol yn gwneud cynnig i'w diddymu.

6.27 Mynegodd Aelodau bryder am y Mesur a holi am bosibilrwydd gwahodd rhywun o San Steffan i esbonio gweithrediad ac oblygiadau'r ddeddfwriaeth.

6.28 Er y pryderon, sylwodd yr Aelodau hefyd fod yna gyfleoedd i’w gweld hefyd.

6.29 Cytunodd y Cadeirydd y byddai’n werthfawr cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a chytunodd Mr Griffiths y byddai’n darparu adysgrif o gyflwyniad a oedd wedi’i roi yn ddiweddar gan aelod o Swyddfa’r Cabinet i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Camau i’w Cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

6.30 Holodd y Cadeirydd pa strwythur y byddai ar y Cynulliad ei angen i edrych ar fesurau eilaidd, a pha wersi a allai gael eu dysgu o Dy’r Arglwyddi.

6.31 Mynegodd Mr Lambert ei edmygedd tuag at Bwyllgor Cyfansoddiadol Ty’r Arglwyddi ond nododd fod aelodau’r Ty yn teimlo nad oedden nhw’n cael digon o gyfraniad gan y Cynulliad mewn perthynas â deddfwriaeth, nid dim ond mewn perthynas â’i rhagoriaethau ond hefyd o ran ei strwythur.

6.32 Dywedodd hefyd fod angen i’r ddeddfwriaeth fod yn gliriach yn nhermau sut mae’n gymwys i Gymru ac awgrymu efallai y gellid sicrhau cytundeb Cwnsler y Senedd i ychwanegu ‘adran Cymru’ ar ddiwedd deddfwriaeth. Gallai adran o’r fath ddweud rhywbeth i’r perwyl bod yr holl bwerau yn y Ddeddf yn cael eu rhoi i’r Cynulliad gyda rhai eithriadau a fyddai’n cael eu rhestru yn yr adran.

6.33 Gofynnodd Aelodau a fyddai angen staff cyfreithiol ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn craffu ar y ddeddfwriaeth yn llwyddiannus.

6.34 Atebodd Mr Griffiths fod cylch gwaith y Pwyllgor wedi’i lunio’n dynn iawn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ond y byddai ei bwerau ar ôl 2007 yn cael eu penderfynu gan y Cynulliad, ac felly fe fyddai cynyddu nifer y staff cyfreithiol a fyddai’n gweithio mewn swyddogaeth gyfreithiol yn bosibilrwydd.

## Camau i’w Cymryd

6.29 Cytunodd Mr Griffiths y byddai’n darparu adysgrif o gyflwyniad a oedd wedi’i roi gan aelod o Swyddfa’r Cabinet i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Camau i’w Cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

## Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Gofynnodd Aelodau a oedd yna nam technegol ar yr offer recordio yn yr ystafell bwyllgora. Cytunodd y Cadeirydd y dylid ymchwilio i’r mater.

7.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 4 Ebrill 2006. Byddai Miss Anna Daniel o Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel yn bresennol.